

IOPC

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu

Independent Office for Police Conduct

# Gwneud gwahaniaeth

## Adroddiad Effaith yr IOPC 2020/21

# Ynghylch ein Hadroddiad Effaith

- Mae ein trydydd Adroddiad Effaith yn amlinellu’r hyn yr ydym wedi'i gyflawni a’r gwahaniaeth rydym wedi’i wneud.

- Mae’n amlinellu ein cyflawniadau mewn pedwar maes blaenoriaeth:
    - gweithio gydag eraill i wella system gwynion yr heddlu
    - gwella plismona trwy adnabod a rhannu gwersi a ddysgwyd trwy ein gwaith
    - gwella hyder y cyhoedd yn atebolrwydd yr heddlu
    - bod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol

# Pwy ydym ni a beth ydym yn ei wneud

Rydym yn goruchwylio system gwynion yr heddlu yng Nghymru a Lloegr. Rydym wedi:

- ymchwilio i'r digwyddiadau a'r cwynion mwyaf difrifol yn ymwneud â'r heddlu
- ystyried ceisiadau ar gyfer adolygiad neu apêl gan bobl sy'n anfodlon gyda chanlyniad eu cwyn neu'r modd y deliwyd â'r gŵyn
- gosod a monitro'r safonau y dylai'r heddlu eu defnyddio wrth ymdrin â chwynion
- cyhoeddi ymchwil ac ystadegau ar feysydd penodol o blismona a system gwynion yr heddlu
- defnyddio'r gwersi o'n gwaith i ddylanwadu ar newidiadau mewn plismona

**Rydym yn gwneud ein holl benderfyniadau yn annibynnol ar yr heddlu, llywodraeth a grwpiau budd.**

# Gwneud gwahaniaeth trwy atebolrwydd a dysgu

## Gwella'r system gwynion

**ERS ein sefydlu yn 2018**

**1895** o ymchwiliadau wedi'u cwblhau

**2020/2021**

**91%** o ymchwiliadau craidd wedi'u cwblhau cyn pen 12 mis

**460** o ymchwiliadau wedi'u cwblhau

**325** o apeliadau wedi'u cynnal

**201** o adolygiadau wedi'u cynnal

## Adnabod a rhannu dysg

**408** o argymhellion dysg

**216** o argymhellion dysg wedi'u gwneud

**10%** o argymhellion dysg ar gamdriniaeth ddomestig

**16%** o argymhellion dysg ar y ddalfa

**95%** yn bwriadu argymell cylchgrawn Learning the Lessons

## Meithrin hyder ymysg y cyhoedd

Ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r IOPC

Hyder rhanddeiliaid yn effeithiolrwydd yr IOPC

Hyder gan bobl Dduon, Asiaidd ac ethnig leiafrifol bod yr heddlu'n delio gyda chwynion yn deg

**37%** o bobl ifanc yn hyderus bod yr heddlu'n delio gyda chwynion yn deg

**38%** o bobl ifanc yn ymwybodol o'r IOPC

**500** o alwadau i'n canolfan gyswllt yn wythnosol

**1.7m** wedi mynd ar y wefan

**300+** o gyfarfodydd cymunedol

BLAENORIAETH

1

## Gweithio gydag eraill i wella system gwynion yr heddlu

Rydym yn gweithio i wella pob rhan o'r system gwynion – ein gwaith ein hunain a'r gwaith sy'n cael ei gyflawni gan eraill – fel ei bod yn cyflawni deilliannau sy'n ddiduedd, yn deg ac yn seiliedig ar dystiolaeth yn brydlon ac yn gyson.


Rydym yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod:

- cwynion yn cael eu trin yn rhesymol ac yn gymesur
- swyddogion heddlu a staff yr heddlu yn cael eu dwyn i gyfrif
- gwasanaeth yr heddlu yn dysgu ac arferion plismona yn gwella

# Ein hymchwiliadau

Rydym yn ymchwilio i'r digwyddiadau a'r honiadau mwyaf difrifol a sensitif yn ymwneud â'r heddlu.

Yn gyfreithiol, rhaid i'r heddlu atgyfeirio cwynion a digwyddiadau penodol atom ni. Rydym yn penderfynu a yw ymchwiliad yn hanfodol ac, os felly, pa lefel o gyfranogiad y dylem ni ei chael yn yr ymchwiliad hwnnw.





Ffynhonnell: Ystadegau perfformiad yr IOPC

# Ein hymchwiliadau

Gwnaethom ganolbwyntio ar wella faint o amser mae ein hymchwiliadau yn cymryd.

Bu i ni gwblhau 91% o'n hymchwiliadau craidd cyn pen 12 mis. Cynnydd o'i gymharu â 83% yn 2019/20.

Wrth ddewis achosion, rydym hefyd yn ystyried a oes yna gyfleoedd ar gyfer dysgu neu a oes posib nodi arfer da.




Ffynhonnell: Ystadegau perfformiad yr IOPC

# ASTUDIAETHAU ACHOS

## Cipolwg ar rai o'n hymchwiliadau

### Rhannu negeseuon amhriodol yn arwain at rybuddion ysgrifenedig

Cafodd pum swyddog a anfonodd negeseuon testun hiliol, gwreig-gasaol a homoffobig rybuddion ysgrifenedig ar ôl gwrandawiad camymddwyn annibynnol.

Roedd y negeseuon yn awgrymu bod un swyddog wedi ceisio sefydlu perthynas amhriodol ag aelod o'r cyhoedd benywaidd, agored i niwed, yr oedd wedi cwrdd â hi tra ar ddyletswydd. Roedd ei ffôn symudol hefyd yn cynnwys fideos a ffeiliau sain wedi'u gwneud o ryngweithio rhwng yr heddlu ag aelodau o'r cyhoedd a recordiwyd ar ddyfais bersonol heb yn wybod iddynt a heb eu caniatâd.

### Camddefnyddio safle yn arwain at ddedfryd carchar

Ym mis Rhagfyr 2020, dedfrydwyd swyddog gyda Heddlu Swydd Hertford i chwe blynedd a hanner yn y carchar ar ôl iddo ei gael yn euog o ddau gyhuddiad o weithgaredd rhywiol treiddiol gyda phlentyn yn dilyn ein hymchwiliad.

Roedd ei ddioddefwr wedi bod yn cymryd rhan mewn rhaglen cadetiaid yr heddlu tra bod y rhingyll yr heddlu yn arweinydd cadetiaid ac roedd y cyswllt yn cynnwys gweithgaredd rhywiol mewn cyfarfodydd cadetiaid, ar wyliau i gadetiaid ac yng nghyfeiriad cartref y swyddog.

Yn ystod yr ymchwiliad, a reolwyd gan yr IOPC ond a gynhaliwyd gan Heddlu Swydd Hertford, amlygwyd diffygion wrth reoli cofnodion cadetiaid yr heddlu a arweiniodd atom yn gwneud argymhellion dysgu lleol a chenedlaethol i amddiffyn pobl ifanc yn well yn y dyfodol.

### Gorchymyn cymunedol yn dilyn ymosodiad ar berson ifanc yn y ddalfa

Cafwyd swyddog yn euog a rhoddwyd gorchymyn cymunedol iddo wneud 200 awr o waith di-dâl ar ôl i ni ymchwilio i ddigwyddiad lle ymosododd rhingyll heddlu ar fachgen 16 oed a oedd yn nalfa'r heddlu.

Tarodd y rhingyll y plentyn ar ei wyneb ac yna tynnu ei ddillad, a'i adael yn noeth nes i swyddog y ddalfa ddod i mewn i'r gell i'w gynorthwyo. Gwnaethom anfon ffeil o dystiolaeth i Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) a wnaeth ein hawdurdodi i gyhuddo'r swyddog o guro plentyn.

# ASTUDIAETHAU ACHOS

## Dim achos i'w ateb ar ôl cwyn o broffilio hiliol

Gwnaethom ymgymryd ag ymchwiliad ar ôl i gŵyn o broffilio hiliol gael ei wneud yn erbyn swyddog heddlu a stopiodd a chwestiynodd person yn ei gar.


Er bod y dystiolaeth yn dangos bod yr achwynydd wedi'i stopio'n annheg oherwydd bod y swyddog wedi dibynnu ar wybodaeth nad oedd yn gyfredol nac yn benodol i'r sefyllfa, derbyniwyd bod y swyddog wedi gweithredu'n ddidwyll at ddiben plismona cyfreithlon. Ymddiheurodd y swyddog am y gofid a achoswyd a chydnabod y gallai fod wedi rhoi esboniad mwy clir ar y pryd.

Ni chanfuom unrhyw achos i'w ateb am gamymddwyn a gwnaethom argymell y dylai'r swyddog fyfyrio ar y digwyddiad hwn a chryfder y wybodaeth a oedd yn cyfiawnhau stopio'r gyrrwr. Gwnaethom argymell bod yn rhaid i'r swyddog ystyried sut y gallai ei weithredoedd effeithio'n anghymesur ar ddynion Du, pam y gellid ystyried bod stopio'r gyrrwr yn wahaniaethol, yr effaith a gafodd y digwyddiad hwn ar yr unigolyn dan sylw a'r effaith y gallai ei chael ar hyder mewn plismona. Cafodd y swyddog hefyd hyfforddiant ychwanegol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

**"Gwnaethom argymell bod yn rhaid i'r swyddog ystyried sut y gallai ei weithredoedd effeithio'n anghymesur ar ddynion Du**, pam y gellid ystyried bod stopio'r gyrrwr yn wahaniaethol, a'r effaith a gafodd y digwyddiad hwn ar yr unigolyn dan sylw."

# Apeliadau ac adolygiadau

- Pan nad yw rhywun yn hapus â'r ffordd gwnaeth yr heddlu ymdrin â'u cwyn, mae ganddynt hawl i ofyn am adolygiad.
- Rydym yn asesu a oedd canlyniad eu cwyn yn rhesymol a chymesur.




* Fel y corff apelio perthnasol, mae'n rhaid i ni asesu p'un a oedd yr apêl yn ddilys cyn y gallwn ei hystyried. Mae yna nifer o resymau pam y gellid barnu bod apêl yn annilys.

** Mae p'un a yw cais yn cael ei drin fel apêl neu adolygiad yn dibynnu ar y dyddiad y gwnaed y gŵyn. Mae'r hawl i apêl yn berthnasol cyn 1 Chwefror 2020 ac mae'r hawl i adolygiad yn berthnasol o 1 Chwefror 2020.

# Gweithio gyda heddluoedd ar newid deddfwriaethol

**Ym mis Chwefror 2020, cyflwynwyd diwygiadau i wneud y system gwynion yn symlach ac yn fwy effeithiol**

- Gwnaethom ddarparu cymorth rheolaidd i helpu heddluoedd ddeall newidiadau i'r modd y delir â chwynion ac i weithredu'r newidiadau hynny.
- Gwnaethom gynnal gweithdai ar gyfer rhai sy'n ymdrin â chwynion yr heddlu i hyrwyddo ffordd fwy hyblyg o ddelio â chwynion.
- Gwnaethom rannu dysgu gyda'r heddlu ar gasglu data am adolygiadau, ymchwiliadau a chwynion cenedlaethol.
- Mae yna arwyddion cynnar bod y diwygiadau yn gweithio: roedd heddluoedd yn cael eu gyrru llai gan brosesau ac yn chwilio am ganlyniadau mwy hyblyg.
- Cwympodd y nifer o gwynion a ymchwiliwyd o dan y broses Atodlen 3 ffurfiol o 40% i 3% dros y 9 mis cyntaf.

# Gweithdai Newid Deddfwriaethol

"Roedd y gweithdy yn ardderchog. Roedd gan staff yr IOPC wybodaeth fanwl ac roedd yr astudiaethau achos yn grymuso'r dysgu ac yn ddefnyddiol iawn. **Rwy'n meddwl mai dyma'r gweithdy gorau i mi fynd iddo o ran rhannu syniadau a dysgu, hoffwn ddiolch i chi am eich amser a'ch ymdrech"**

Aelod dienw o'r gweithdy

# BLAENORIAETH

# 2

**Gwella plismona trwy adnabod a rhannu gwersi a ddysgwyd trwy ein gwaith.**

Rydym yn canolbwyntio ein gwaith ar feysydd sy'n peri pryder i'r cyhoedd a'r heddlu ac yn gweithio gyda phartneriaid i rannu ein dysg i wella plismona a diogelu'r cyhoedd rhag niwed.

> "**Rwy'n croesawu adolygiad Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu i'r defnydd o stopio a chwilio yn Llundain**. Mae'n gwbl hanfodol bod ein gwasanaeth heddlu yn cadw hyder a ffydd y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu."


Sadiq Khan, Maer Llundain

# Argymhellion dysgu


- Rydym yn adnabod a rhannu dysgu o'n gwaith ar ymchwiliadau, adolygiadau ac apeliadau.

- Rydym yn gwneud argymhellion dysgu i sicrhau os yw pethau'n mynd o chwith, bod gwersi'n cael eu dysgu a pholisïau ac arfer yn newid, os yw'n briodol.

- Arweiniodd argymhellion yn dilyn Ymgyrch Kentia at newidiadau cenedlaethol mewn ceisiadau am warantau chwilio a mwy na 24,000 o heddweision yn cael hyfforddiant pellach.



# Argymhellion dysgu




*Roedd ‘arall’ yn cynnwys argymhellion yn ymwneud â chyffuriau ac alcohol; hunan-niweidio; storio tystiolaeth, rheoli digwyddiadau a’r defnydd o’r cyfryngau cymdeithasol.

# Sut ydym yn defnyddio ein dysg o'n gwaith

## Y llywodraeth a chyrff cyhoeddus

- I ddatblygu a bwydo deddfwriaeth newydd ynghylch plismona a system gwynion yr heddlu.
- I fwydo polisi a deddfwriaeth mewn sectorau eraill - e.e. iechyd, carchardai, systemau'r goron, iechyd a diogelwch.

## Sefydliadau cymunedol a gwirfoddol

- I sicrhau bod heddluoedd yn atebol pan fydd gwelliannau angenrheidiol wedi'u hadnabod.
- I ddeall sut fyddai'r ffordd orau i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth yn system gwynion yr heddlu.

## Gwasanaeth yr heddlu

- I helpu i ddiogelu'r cyhoedd a'r heddlu er mwyn atal rhywbeth aeth o'i le rhag digwydd eto.
- I wella ymarfer, polisi, canllaw, hyfforddiant, offer a systemau'r heddlu.
- I wella'r dull o ddelio gyda chwynion, materion ymddygiad a marwolaethau ac anafiadau difrifol sy'n ymwneud â'r heddlu.

## Heddluoedd rhyngwladol a chyrff goruchwylio

- I wella ymarfer plismona, gwella dulliau goruchwylio a chefnogi hawliau dynol mewn gwledydd eraill.

## Cyrff plismona

- I fwydo polisi cenedlaethol, canllawiau a hyfforddiant a ddarperir gan y Coleg Plismona.
- I fwydo archwiliadau heddluoedd a chyfleusterau dalfeydd
- I sicrhau bod heddluoedd yn atebol pan fydd gwelliannau angenrheidiol wedi'u hadnabod.

## Academyddion a chyrff ymchwil

- I fwydo ymchwil a datblygiad gwyddonol.


# Rhannu dysgu er mwyn gwella plismona

**Rydym yn rhannu dysgu**
a nodir o'n hadolygiadau ac ymchwiliadau trwy adroddiadau, crynodebau o ymchwiliadau, datganiadau i'r cyfryngau, cylchlythyrau, briffiau a chyflwyniadau.

**Rydym yn hyrwyddo dysgu**
trwy dynnu sylw arweinwyr yr heddlu a'n partneriaid goruchwylio at faterion, ac yn argymell eu bod yn gweithredu er mwyn gwella plismona (er enghraifft, yr adolygiad i'r defnydd o tasers, tasglu cyfryngau cymdeithasol yr NPCC).

# Y cylchgrawn *"Learning the Lessons"*

**Adborth gan ein darllenwyr**



**91%**
o ymatebwyr wedi dweud bod y cylchgrawn yn offeryn defnyddiol i helpu i yrru newid mewn polisi ac ymarfer yr heddlu

**91%**
o ymatebwyr wedi dweud bod y cylchgrawn yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol iddynt i ategu'r wybodaeth a roddir iddynt trwy hyfforddiant, briffio neu brofiadau ymarferol

**95%**
o ymatebwyr wedi dweud eu bod yn bwriadu rhannu'r cylchgrawn gyda'u cydweithwyr i helpu i rannu'r hyn a ddysgir ohono

Ffynhonnell: Adborth o'r arolwg o rifyn 38 o'r cylchgrawn "Learning the Lessons" ar blismona'r ffyrdd. Cyfanswm y bobl wnaeth ymateb i'r arolwg = 23.

# ASTUDIAETH ACHOS

## Anghymesuredd wrth stopio a chwilio

Mae tystiolaeth am anghymesuredd wrth ddefnyddio pwerau'r heddlu wedi bod yn bryder ers amser maith ac mae'n effeithio ar hyder mewn plismona, yn arbennig mewn cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig.

Nodwyd un ar ddeg o gyfleoedd i'r Gwasanaeth Heddlu Metropolitan (MPS) wella'r ffordd y mae'n ymarfer pwerau stopio a chwilio ac ystyried anghymesuredd yn dilyn adolygiad o bum ymchwiliad yn ymwneud â stopio a chwilio dynion Du gan swyddogion MPS.

Gwelsom fod cyfreithlondeb stopio a chwilio yn cael ei danseilio gan:

- ddiffyg dealltwriaeth o effaith anghymesuredd
- cyfathrebu gwael
- defnydd cyson o rym wrth geisio cydweithredu
- y methiant i ddefnyddio camerâu corff o ddechrau cyswllt a
- parhau i chwilio am dystiolaeth bellach ar ôl gweld bod y sail gychwynnol dros y stopio a chwilio yn ddi-sail.

Gwnaeth y llu dderbyn ein holl argymhellion a gwneud nifer o newidiadau gan gynnwys:

- ymgorffori profiadau byw pobl Ddu a lleiafrifoedd ethnig yn eu hyfforddiant a chreu cyfres o fideos hyfforddi stopio a chwilio newydd
- gwella monitro a goruchwylio achosion o stopio a chwilio, gan gynnwys system i ganiatáu i gymunedau adolygu achosion ehangach sy'n peri pryder
- gweithredu polisi penodol ar roi pobl mewn gefynnau cyn eu harestio

Gwnaeth y dysgu a nodwyd o'n gwaith hefyd gyfrannu at gynllun gweithredu Maer Llundain sy'n canolbwyntio ar anghymesuredd pwerau'r heddlu.

> **"Rydym yn poeni'n fawr am y...defnydd gormodol o efynnau, y defnydd amhriodol o stopio a chwilio a'r methiant i ddefnyddio camerâu corff yn iawn. [Rhaid i argymhellion yr IOPC]... nawr gael eu gweithredu'n llawn** er mwyn mynd i'r afael â phlismona anghymesur ac i helpu i ailadeiladu ffydd ac ymddiriedaeth yn yr heddlu ym mhob un o'n cymunedau."
>
> Maer Hackney Philip Glanvilleand, y Cynghorydd Susan Fajana-Thomas, Aelod Cabinet dros Ddiogelwch Cymunedol

Ffynhonnell: Mynd i'r afael â phlismona anghymesur: Datganiad ar adolygiad yr IOPC i stopio a chwilio (hackney.gov.uk)

**BLAENORIAETH**

**3**

## Gwella hyder y cyhoedd yn atebolrwydd yr heddlu

Rydym yn ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid a chymunedau, gan ganolbwyntio ar y rhai sydd â'r lleiaf o hyder mewn plismona, fel eu bod yn deall eu hawl i ddisgwyl triniaeth deg a'u hawl i wneud cwyn am ddigwyddiadau difrifol.

**"Roedd y wybodaeth a anfonoch ynghylch yr IOPC (a) sut i wneud cwyn yn ffantastig.** Rwyf wedi'i defnyddio wrth roi gwybod i bobl bod ganddynt yr hawl i gwyno mewn achosion lle nad ydynt yn teimlo eu bod wedi cael gwasanaeth da/cywir."


Rhanddeiliad IOPC

# Gweithio gyda phobl ifanc

- Gwnaethom sefydlu Panel Ieuenctid yn 2018 i fynd i'r afael â gyrwyr hyder isel, rhwystrau i gwyno ac archwilio sut y gallwn gynyddu ymwybyddiaeth pobl ifanc.
- Mae yna 37 o aelodau i gyd, a 2/3 aelod yn dod o gefndir Du, Asiaidd neu Leiafrif Ethnig.
- Gwnaethom lansio canllaw newydd i helpu pobl ifanc i ddeall eu hawliau. Mae ein cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol wedi cael ei wylio dros 7,000 o weithiau.
- Gwnaethom rannu ein canllaw ar gyfer pobl ifanc gyda grwpiau cynghori annibynnol, swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (PCCs), byrddau iechyd, awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol.
- Gwnaethom anfon poster gyda chyngor ar weithio gyda phobl ifanc i'r holl heddluoedd yng Nghymru a Lloegr.

# Barn pobl ifanc

**Ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r IOPC**




Ffynhonnell: Traciwr Canfyddiadau'r Cyhoedd yr IOPC


*Roedd yna newid i eiriad y cwestiwn a ofynnwyd yn 2019/20.

"Rwyf am i'r heddlu gydnabod yr effaith negyddol y gall hyder isel ei gael ar gymdeithas os na chymerir camau i fynd i'r afael â hyder isel… **Rwy'n credu mai gweithio gyda'r Panel Ieuenctid yw'r cam cyntaf tuag at wneud gwahaniaeth a newid yn hyn o beth."**

Saeed Ali, aelod o'r Panel Ieuenctid


# Mwy o farn y cyhoedd

**Pobl o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig sy'n hyderus bod yr heddlu yn delio â chwynion yn deg**





Ffynhonnell: Olrheiniwr Canfyddiadau'r Cyhoedd yr IOPC: Crynodeb adroddiad blynyddol 2020/21

**Ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r IOPC - "A ydych wedi clywed am yr IOPC (Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu)?"**




Ffynhonnell: Traciwr Canfyddiadau'r Cyhoedd yr IOPC

**Hyder y cyhoedd yn yr IOPC - "Pa mor hyderus, os o gwbl, ydych chi fod yr IOPC yn gwneud gwaith da?"**





Ffynhonnell: Traciwr Canfyddiadau'r Cyhoedd yr IOPC

# Codi ymwybyddiaeth

- Gwnaethom rannu gwybodaeth trwy ein gwefan, cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau, adroddiadau a chyhoeddiadau, gan gyrraedd miliynau o bobl.
- Gwnaethom gyhoeddi 198 o ddatganiadau cyfryngau am ymchwiliadau a sicrhau sawl stori dudalen flaen mewn papurau newydd cenedlaethol, gan gyrraedd miliynau o bobl.
- Gwnaethom gyhoeddi adroddiadau allweddol yn cynnwys adroddiad blynyddol ar farwolaethau yn ystod neu ar ôl cyswllt gyda'r heddlu, ac ystadegau chwarterol a blynyddol ar gwynion yr heddlu ar lefel lleol a chenedlaethol.
- Gwnaethom ail-lansio ein hymgyrch 'Cael eich Clywed' yn hyrwyddo'r system Ateb Tawel. Wedi cael sylw yn y wasg a 164K o argraffiadau Twitter.

# Codi ymwybyddiaeth




**"...rydym yn croesawu'r tryloywder y mae adroddiad yr IOPC yn ei ddarparu ar farwolaethau yn dilyn cyswllt â'r heddlu.** Mae marwolaethau yn y ddalfa yn cael eu cymryd o ddifrif ac yn destun adolygiad annibynnol gan yr IOPC yng Nghymru a Lloegr. Mae ystadegau heddiw yn tynnu sylw at nifer o dueddiadau, gydag iechyd meddwl ac alcohol a chamddefnyddio sylweddau yn ffactorau arwyddocaol yn y marwolaethau anffodus yn nalfa'r heddlu ac ar ôl bod yn nalfa'r heddlu."


Matthew Scott, Arweinydd Iechyd Meddwl a'r Ddalfa, Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (APCC), Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (PCC) Caint, a'r Dirprwy Arweinydd, Martyn Underhill, PCC Dorset, yn ymateb i adroddiad Marwolaethau'n Dilyn Cyswllt â'r Heddlu 2019/20 yr IOPC, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020


# Gweithio gyda rhanddeiliaid

- Rydym yn gwerthfawrogi ymgysylltu a gwrando ar randdeiliaid o sefydliadau plismona, gwirfoddol, cymunedol ac eiriolaeth a’r rhai sydd â'r hyder isaf.
- Gwnaethom nodi argymhelliad dysgu cenedlaethol ar hyfforddiant i wella'r ffordd y mae swyddogion heddlu'n delio â phobl sy'n sâl neu'n dioddef argyfwng meddygol.
- Yr effaith oedd diweddaru hyfforddiant ar gyfer myfyrwyr heddlu, swyddogion heddlu, cwnstabliaid arbennig a swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu.
- Gwnaethom gynnal dros 300 o gyfarfodydd cymunedol gyda grwpiau cynghori annibynnol, llywodraeth leol, ysgolion, grwpiau crefyddol, cymunedol ac eiriolaeth.
- Gwnaethom hyfforddi dros 100 o weithwyr achos rheng flaen yn Cymorth i Ddioddefwyr ar sut i gynorthwyo rhywun i gwyno (elusen sy’n cael 88K o alwadau ffôn, e-byst a sgyrsiau byw bob blwyddyn).

# Beth mae ein rhanddeiliaid yn ei ddweud

Barn rhanddeiliaid rhwng 2019/20 a 2020/21




Ffynhonnell: Arolygon rhanddeiliaid blynyddol yr IOPC

# Ymgysylltu â chymunedau lleol

- Gwnaethom gynyddu ein hymgysylltiad â chymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yr effeithiwyd arnynt gan ddigwyddiadau difrifol yn ymwneud â'r heddlu.
- Gwnaethom sefydlu grwpiau cyfeirio cymunedol i wrando, rhannu gwybodaeth a chynyddu mynediad at yr IOPC.
- Gwnaethom gynnal dros 30 o gyfarfodydd grwpiau cyfeirio cymunedol a saith cyfarfod cymunedol arall am achosion proffil uchel gyda phobl leol.

**"Diolch am bopeth yr ydych yn ei wneud i helpu Haringey ymateb yn briodol i achosion sy'n peri pryder yn ymwneud â'r MPS yn ein bwrdeistref."**

Y Parchedig John Wood, Cyfarwyddwr Hope in Tottenham

**"Rwyf wir yn gwerthfawrogi eich dull cyfannol o rannu gwybodaeth i helpu i ddatblygu ymwybyddiaeth a gwybodaeth"**

Charles Kwaku-Odoi, Prif Swyddog y Rhwydwaith Iechyd Caribïaidd ac Affrica

**"Rwyf wir yn gwerthfawrogi eich bod yn darparu llwyfan i ddweud y gwir wrth y rhai sydd mewn grym."**

Zed Ali, Prif Swyddog Sefydliad Cydraddoldeb Sir Gaerhirfryn

# Rhoi defnyddwyr gwasanaeth yn gyntaf

Gwnaethom gadw ein hachrediad Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer, safon a gydnabyddir yn genedlaethol.
Gwnaethom gadw'r sgôr uchaf mewn:

- gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth anodd eu cyrraedd a difreintiedig
- rhoi defnyddwyr gwasanaeth wrth galon yr hyn a wnawn
- bod yn sefydliad dysgu a rhannu'r dysgu hwnnw yn fewnol ac allanol

> "Rydym wedi ailstrwythuro ein tîm o amgylch ein cwsmeriaid, gan roi dadansoddwr ymroddedig i bob rhanbarth. **Mae'r gwelliannau yr ydym wedi'u gwneud yn fawr a gobeithiwn barhau i greu newidiadau cadarnhaol...er mwyn sicrhau gwell profiad i'n cwsmeriaid"**
>
> Swyddog cymorth dadansoddol yr IOPC

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE®
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID®
CSE

# BLAENORIAETH 4

## Bod yn sefydliad effeithiol ac effeithlon

Byddwn yn denu ac yn cadw gweithlu amrywiol a medrus ac yn rhoi amgylchedd gwaith da iddynt gan wella yn barhaus i roi gwerth am arian i ddefnyddwyr gwasanaeth a threthdalwyr.

"Rwyf wir wedi gwerthfawrogi natur agored uwch reolwyr a'u parodrwydd i ymgysylltu â staff, a bod yn fwy gweladwy...**Rwy'n teimlo ein bod ni wedi dod yn sefydliad mwy cysylltiedig er ein bod ni wedi ein datgysylltu'n gorfforol**".

Ymatebwr, arolwg pwls staff Gorffennaf 2020

# Cefnogi ein pobl yn ystod y pandemig

- Fe wnaethom addasu’n gyflym i weithio gartref, bod yn hyblyg a mabwysiadu gwahanol ffyrdd o weithio (e.e. ffyrdd o gymryd datganiadau tystion, cadw ein staff yn gysylltiedig yn rhithwir).
- Gwnaethom ofyn am adborth rheolaidd trwy arolygon Pwls staff i lywio penderfyniadau sefydliadol a sicrhau bod y staff yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth drwy gydol yr amser.
- Gwnaethom flaenoriaethu lles ein pobl a sefydlu mentrau lles (e.e. sesiynau cwnsela, awgrymiadau lles a gweithgareddau i gadw staff mewn cysylltiad).
- Er gwaethaf y pandemig, gwnaethom ddal gyflawni ein blwyddyn gryfaf o berfformiad erioed o ran amseroldeb ymchwiliadau a’r nifer o argymhellion dysgu.

# IOPC mwy cynhwysol ac amrywiol

Rydym yn sefydliad cynhwysol sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth ym mhopeth a wnawn. Mae ein gweithredoedd yn cynnwys:

- arwyddo'r Siarter Hil yn y Gwaith i ddangos ein hymrwymiad i gydraddoldeb a chynwysoldeb hiliol
- datblygu strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) a pholisi EDI ar gyfer ymddygiad staff
- llunio polisi recriwtio newydd i gynyddu'r nifer o ymgeiswyr Du, Asiaidd a lleiafrif ethnig, gwella amrywiaeth a datblygu gwell llwybrau gyrfa ar gyfer y dalent amrywiol sydd gennym eisoes
- lansio ein rhaglen gynghreiriaeth gyntaf a'n cynllun mentora o chwith i alluogi gwell cynhwysiant a meithrin dysgu a thwf

**"Roedd cael clywed cyfrifon uniongyrchol o sut beth yw bod yn aelod du o staff yn yr IOPC yn agoriad llygad i mi a gwnaeth fy annog i feddwl am sut y gallwn fod yn gynghreiriad gwell yn y dyfodol."**

Claire Bassett, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol - Gweithrediadau

# Datblygu ein harbenigedd




Nod ein rhwydweithiau pwnc (SMNs) yw datblygu ein gwybodaeth, yn fewnol ac allanol, a chynyddu ein heffaith fel sefydliad.

Maen nhw'n dwyn ynghyd ddisgyblaethau i nodi dysgu a sicrhau bod ein gwaith gweithredol yn adlewyrchu arfer da.

Cynhyrchodd SMNs ganllawiau ar iaith beio dioddefwyr, llunio polisïau staff ar gam-drin domestig ac arwain argymhellion dysgu cenedlaethol a lleol mewn meysydd o'u harbenigedd.

# ASTUDIAETH ACHOS

## Hyfforddiant gwahaniaethu ar sail hil yn adeiladu sgiliau staff

Yn cwmpasu cymysgedd o theori ac ymarfer, cwblhaodd 70 o ymchwilwyr a rheolwyr gwaith achos hyfforddiant gwahaniaethu ar sail hil yn ystod y flwyddyn i gefnogi ein gwaith ar wahaniaethu ar sail hil a phlismona.

Datblygwyd y cwrs i wella ansawdd ymchwiliadau i honiadau o wahaniaethu ar sail hil, gyda'r cwrs yn ymdrin â chymysgedd o theori ac ymarfer ac yn cynnwys cyflwyniad gan Brifysgol Fetropolitan Manceinion ar sut y gellir trin pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrif ethnig yn wahanol ac yn fwy llym yn y system cyfiawnder troseddol.

Ar ôl cwblhau'r hyfforddiant, mae disgwyl i'r cyfranogwyr arwain ymchwiliadau gwahaniaethu ar sail hil, helpu ymchwilwyr arweiniol eraill gydag ymchwiliadau gwahaniaethu ar sail hil, a rhannu dysgu a gweithwyr eraill yn eu swyddfa gyda chefnogaeth y Rhwydwaith Materion Pwnc Gwahaniaethu.

Yn dilyn yr hyfforddiant, cytunodd yr holl ymatebwyr fod eu dealltwriaeth o'r pwnc wedi cynyddu, dywedasant eu bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddelio ag achosion gwahaniaethu ar sail hil, ac roedd y mwyafrif yn teimlo y byddai eu perfformiad yn gwella yn dilyn y dysgu.

Yn dilyn yr hyfforddiant, **cytunodd staff fod eu dealltwriaeth o wahaniaethu ar sail hil wedi cynyddu** a nododd eu bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddelio â'r achosion hyn.

# Cwestiynau?

# I gael gwybod mwy

**Gwefan: www.policeconduct.gov.uk**

Twitter: @policeconduct

E-bost: enquiries@policeconduct.gov.uk

Ffôn: 0300 020 0096

Cyfnewid testun: 18001 0207 166 3000

**Ysgrifennwch atom yn:**

IOPC, 10 South Colonnade

Canary Wharf Llundain E14 4PU